

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd
nos Lun 29 Mehefin 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

1. Croeso'r Cadeirydd

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Enoc Jenkins (Cadeirydd), Ellen ap Gwynn, Bleddyn Huws, Elgan Evans, Catrin Davies (Cyngorydd Sir), Rhian Evans a Nest Jenkins (o bell)

Yn cofnodi: Lynwen Rees Jones

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr Nia Richards, Siôn Pennant Jones (Is-gadeirydd) a Mererid Watson

3. Datgan Buddiant Personol

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

4. Cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf

- i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod misol diwethaf, a gynhaliwyd ar 18 Mai 2026, yn gywir, yn amodol ar newid **5. i) b)** o ... *Gwarcwm Isaf* i ... *Gwarcwm Uchaf*.
Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Elgan Evans
- ii) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blynyddol, a gynhaliwyd ar 18 Mai 2026, yn gywir.
Cynnig: Bleddyn Huws; Eilio: Ellen ap Gwynn
Nodwyd y byddai'n rhaid cynnal y cyfarfod blynyddol nesaf cyn pen 14 diwrnod i'r etholiad, h.y. ar 17 Mai 2027.

5. Materion yn codi

- i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir: nid oedd unrhyw ymateb wedi dod gan y Cyngor Sir.
- ii) Mynwent Nazareth: roedd llythyr wedi dod gan y cyfreithwyr yn cadarnhau y byddai'r Eglwys Bresbyteraidd yn barod i gynnig £20,000, ond eu bod yn nodi '*this transaction is not intended as a long-term commitment*' ac y byddai'r Cyngor yn gallu '*generate income from interment fees and monumental fees*'. Penderfynwyd cysylltu:
 - i gael eglurhad am y frawddeg gyntaf gan mai'r ddealltwriaeth oedd mai sefyllfa barhaol fyddai hyn.
 - i gael eglurhad am yr ail frawddeg, gan fod y Cyngor wedi deall nad oedd claddedigaethau'n cael eu cynnal yn y fynwent mwyach.
 - i ofyn am gael cofnodion y fynwent pe byddai'r trosglwyddo'n mynd rhagddo.
- iii) Torri glaswellt cae chwarae Maesyderi: cafwyd y prisiau canlynol
 - Bedwyr Siencyn: £40 yr awr am 2 neu 3 awr o waith i dopio'r glaswellt a'i adael ar y cae
 - Robert Griffiths: £115 am dorri'r glaswelt a'i adael; £180 am dorri a chasglu i'r naill ochr; £360 am dorri a gwaredu.Penderfynwyd gofyn i RG dorri a chasglu'r glaswellt, a hynny cyn gynted â phosibl.
- iv) Parc chwarae Bont-goch: byddai Bedwyr Siencyn yn dechrau ar y gwaith ddiwedd Gorffennaf/ddechrau Awst.
- v) Goryrru a pharcio yn Nhal-y-bont: roedd yr heddlu wedi bod yn y pentref yn mesur cyflymder y traffig. Roedd bolard wedi cael ei osod ar y pafin ar gornel Stryd y Capel. Nodwyd fod Comisiynydd yr Heddlu yn cynnig grantiau ar gyfer gwella diogelwch ffyrdd. Trafodwyd y posibilrwydd o wneud cais, ar y cyd â'r ysgol gynradd, mewn perthynas ag arafu traffig ym mhentrefi Bont-goch, Eglwys Fach, Taliesin, Tal-y-bont, ac ati. Un awgrym oedd y gellid gosod 'gatieu' o amgylch yr arwyddion cyflymder i dynnu sylw atyn nhw.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

6. Adran 6 – Bioamrywiaeth

Doedd neb yn bresennol i roi adroddiad.

7. Gohebiaeth

Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cyngorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

- i) Arolwg Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.
- ii) Hywel Dda – ail gam yr ymgynghoriad ar y gwasanaethau strôc ym Mronglais. Anogwyd y cyngorwyr i edrych ar hwn yn unigol.
- iii) Neges oddi wrth deulu Tanrallt yn dioch am y gwaith o docio'r gwrych ger y ffordd fawr.

8. Materion ariannol:

- i) Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi gorffen ei waith a nodi ei sylwadau ar y ffurflen flynyddol. Cymeradwywyd y ffurflen a'i llofnodi'n briodol. Byddai'r Clerc yn gosod hysbysiad yn yr hysbysfyrddau ac ar y we yn nodi bod y cofnodion ariannol ar gael i'w harchwilio, ac yn cyflwyno'r dogfennau perthnasol i Archwilio Cymru.
- ii) Roedd Julian Evans wedi nodi na fyddai'n gallu ymgymryd â rôl yr Archwilydd Mewnol. Cynigiwyd gofyn i Euryr Jones.
- iii) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw; roedd y sefyllfa ar 29.06.2026 fel a ganlyn:

Y cyfrif cyfredol	£887.86
Y cyfrif cadw	£4,032.96
Cyfrif y Tabernacl	£4,668.56
Cyfrif Cae Bach	£30,446.22
Arian mân	£223.29
Cyfanswm	<u>£40,258.89</u>

- iv) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:

Rhoddion i gronfa Cae Bach – £48.00

Llog banc – £49.67

- v) Anfonebau i'w talu:

a) Cyngor Sir Ceredigion, adnewyddu'r drwydded hapchwarae – £20.00

b) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £17.60

c) Ellen ap Gwynn, costau Cwtsh Cynnes – £11.67

d) Sioe Tal-y-bont, gwobr – £20.00

e) Cyflog y Clerc, Ebrill-Mehefin 2026 – £1,156.60

f) CThEF, treth incwm ar gyflog y Clerc – £289.00

Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r taliadau uchod. Penderfynwyd talu'r £20 o wobr i gyfrif Sioe Tal-y-bont ym mis Mawrth o hyn ymlaen.

9. Cynllunio

Cais A260354, EE: newid i gais blaenorol – dim sylw

10. Y Caeau Chwarae

- i) Ymgyrch Cae Bach: yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, penderfynwyd cynnal:
 - Clwb 200 unwaith eto eleni
 - Ras peli yn Nhal-y-bont ar 31 Gorffennaf
 - Llwybr Lliw ar 12 Medi i gyd-fynd â thaith gerdded nodedig Gerwyn Jones
 - Noson Bingo ym mis Hydref
 - Noson Cwis a Cyri ar 13 Tachwedd

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Community Council

- Raffl Nadolig gyda berfa o roddion yn wobr
- ii) Adroddiadau Crimson: roedd yr adroddiadau wedi dod i law gan gwmni Zurich
 - Bont-goch: pob dim yn iawn
 - Cae Bach: roedd cadwyn y siglenni wedi treulio, ac argymhellwyd na ddylid eu defnyddio mwyach ac y dylid eu tynnu oddi yno.Roedd y bwrdd picnic bach mewn cyflwr rhy wael i'w drwsio, felly byddai angen ei waredu.
- iii) Adroddiadau misol: yn ategu'r uchod.

11. Unrhyw Fater Arall

- i) Penderfynwyd holi a oedd yna ddiweddariad ar y gwaith i'r ffordd hyd at Gapel Bethesda.
- ii) Nododd y Cyng. Catrin Davies fod Cyngor Sir Ceredigion wedi dyrannu £114,000 ar gyfer dyluniad manwl o'r trefniadau amddiffyn rhag llifogydd ac achos busnes llawn.
Penderfynwyd cysylltu â Rhodri Llwyd yn gofyn am gyfarfod rhyngddo fe, y Cyngor a'r Grŵp Llifogwyr.

12. Dewis enillwyr y Clwb 200

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Mehefin fel a ganlyn:

1^{af} – 158 Heidi Evans (£50); 2^{il} – 36, Spencer Davies (£20); 3^{edd} – 106, Heledd Lyne (£10)

Cymeradwywyd talu'r gwobrau o arian mân cronfa Cae Bach.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 27 Gorffennaf 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 p.m.